

Llais Llandyrnog Voice

 llandyrnognews@gmail.com  [@LlaisLlandyrnog](https://twitter.com/LlaisLlandyrnog)

Tachwedd 2021 - Cyfrol 7- Rhifyn 2

Ysgol Bryn Clwyd yn 50 oed

Llyfryn y sioc rithiol



Dyma dudalen flaen rhaglen agoriad swyddogol Ysgol Bryn Clwyd, 50 mlynedd yn ôl i'r mis hwn. Y Cadeirydd oedd yr Henadur E.D. Lloyd, a chafwyd anerchiadau ganddo ef, Mr D.W.E. Erasmus, y cyfarwyddwr addysg, a'r Henadur Ivan Tuxford a agorodd yr ysgol yn swyddogol. Cafwyd darlleniadau o'r Beibl gan y Parch. I. Elfyn Ellis, gweinidog Capel y Wesleaid a'r Parch. E.O. David, Rheithor Llandyrnog a Llangwyfan a bu'r disgyblion yn cymryd rhan hefyd. Diolchwyd gan Mrs G.H. Ffoulkes, Cadeirydd Rheolwyr yr Ysgol.

Diolch yn fawr i Mrs Olga Evans am gael benthyg y rhaglen.

Mae hwn ar gael rwan yn Swyddfa'r Post ac yn siop gig Daniel Jones a'i Feibion. Mae llawer o luniau gwych gan drigolion y pentref ynddo. Galwch heibio i nôl eich copi!

Derbynnir cyfraniadau'n ddiolchgar tuag at gost ei argraffu – mae bocs casglu yn Swyddfa'r Post.



Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cyfrannu erthyglau i'r rhifyn hwn ac i'r rheini sydd wedi cyfrannu'n hael yn ariannol. Mae'r cyfan yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Pan fyddwch chi'n cael eich copi o'r Llais o swyddfa'r post neu o'r siop gig, cofiwch roi cyfraniad yn y bocsys casglu, os gwelwch yn dda. Mae'r gost o'i argraffu'n raenus er eich mwynhad yn fwy na'r arian a gawn amdano bob mis, felly mae pob cyfraniad yn help i gynhyrchu eich cylchgrawn chi bob mis.

Pytiau newyddion y pentre

Llongyfarchiadau – gwell hwyr na hwyrach ...
i Graham ac Angie, Sgwâr yr Eglwys, ar eu priodas.

Dymuniadau da ...

... i Arwyn Evans ar ei benodiad i swydd Pennaeth Datblygu Grŵp Cynefin, Dinbych;
... i Glenys Evans, ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ystod y mis;
... i Grace Jones sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Croeso adre... i George Humphreys, sydd wedi dychwelyd i Landyrnog ar ôl bod yn byw dramor am beth amser.

Ymgyrch codi arian

Cafwyd bore coffi llwyddiannus iawn yn neuadd y pentre ganol mis Hydref i gefnogi ymdrech Beth Jones-Owen, Y Wern, a fu'n rhedeg Marathon Llundain i godi arian at Macmillan Cancer Support. Diolch o galon i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd at yr achos – codwyd y swm ardderchog o £566 ar y bore, a gyda chyfraniadau eraill, y cyfanswm terfynol oedd £616. Mae Beth wedi cynnal gweithgareddau eraill hefyd ac erbyn hyn mae hi wedi codi dros £5000.



Yn yr Ystafelloedd Coco

9 Tachwedd: 10am – Clwb Llyfrau

7pm – Sefydliad y Merched

23 Tachwedd: 10am – Clwb Llyfrau

30 Tachwedd: 7pm – Cyfarfod pwyllgor

Llais Llandyrnog Voice



www.girlguiding.org.uk/joinus

Mae Brownies Llandyrnog wedi dechrau cyfarfod eto yn Neuadd y Pentre. Rydyn ni'n cyfarfod ar ddydd Llun, o 5.30 tan 7 fin nos. Mae croeso i ferched 7 i 10 oed ymuno â ni.

Rydyn ni wrthi'n chwilio am aelodau newydd i sicrhau bod yr uned yn parhau. Os ydych yn gwybod am unrhyw ferch a fyddai'n hoffi ymuno â ni, cysylltwch â Mrs Karen Morris ar 07540 146125 am ragor o wybodaeth.

Y Gyndeithas Hanes

Bydd Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Hanes Llandyrnog a Llangwyfan yn neuadd y pentre, nos Fercher, 17 Tachwedd am 7 o'r gloch. I ddilyn, bydd sgwrs gan y cyn aelod Seneddol, aelod y senedd a dirprwy prif weinidog Cymru, Mr Ieuan Wyn Jones. Bydd rhaglen y flwyddyn yn cael ei dosbarthu ar y noson.

Costau hurio Neuadd y Pentre

O hyn tan ddiwedd mis Mawrth 2022, bydd y neuadd a'r gegin ar gael i'w llogi am £28 am ddwy awr. Dim ond i bobl sy'n byw yn y gymuned ac sy'n dymuno trefnu bore coffi i godi arian at elusennau cydnabyddedig y mae'r swm yma'n berthnasol. Bydd disgwyl i'r trefnwyr osod y byrddau a'r cadeiriau, a'u cadw wedyn.

Bore Coffi

er budd prosiectau Cymdeithas Hanes Llandyrnog a Llangwyfan

Bore Sadwrn, 27 Tachwedd, am 10 o'r gloch yn Neuadd y Pentre

Croeso cynnes i bawb!

Derbynnir rhoddion yn ddiolchgar tuag at y stonid cynnyrch cartref a'r raffl

Ymgyrch i brynu diffibriliwr ar gyfer pafiliwn Cae Nant

**Bore Sadwrn, 6 Tachwedd, 10-12 o'r gloch;
Bore coffi yn y Pafiliwn, Cae Nant**

**Nos Wener, 12 Tachwedd: Noson gwis yn y
Golden Lion, dechrau am 8 o'r gloch**

Cefnogwch y rhain os gwelwch yn dda. Gallwch adael gwobrau gyda Mark yn y Golden Lion. Hefyd derbynnir cyfraniadau ariannol tuag at y diffibriliwr.

Bore Coffi er cof am Mrs Olwen Roberts

**Bore Sadwrn 13 Tachwedd
yn Neuadd y Pentre 10-11.30
Yr elw i'w rannu rhwng yr Ambiwllans Awyr
a Chlwb Gateway Dinbych**

Derbynnir rhoddion tuag at stondin gacennau yn ddiolchgar naill ar y diwrnod, neu gadewch nhw yn swyddfa'r post



*CAR - TRUCK -
FARM TYRE SPECIALISTS
BATTERIES & EXHAUSTS*

*Unit 1
Dyffryn Trading Estate
Rhyl Road
Denbigh
LL16 5SJ*

*01745 817676
07775 717602*

Capel y Dyffryn

Dymuniadau da i Heledd gyda'i swydd newydd gyda Chomisiynydd yr Iaith a llongyfarchiadau i Lowri Smith ar gael gradd prifysgol.

Bore Sul 10 Hydref, cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant, gyda'r plant yn cymryd rhan a lona, Hafod y Bryn yn rhoi anerchiad pwrpasol a bendithiol iawn

Y Gymdeithas Nos Lun 17 Hydref, mwynhaodd yr aelodau gwis ar-lein wedi ei baratoi gan Rheinallt, Hen Gapel ar ffurf *Powerpoint* a'i weithredu gan Alaw ac Anna – noson hwyliog ac addysgiadol dros ben.

Oedfaon mis Tachwedd

07/11/21, 9.45: Trefniant lleol
14/11/21, 9.45: Parch. Andras Iago
21/11/21, 11.00: Parch. Nesta Davies
28/11/21 11.00: Parch Huw Dylan Jones

James Davies, A.S. Dyffryn Clwyd

james.davies.mp@parliament.uk
Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920
Swyddfa Westminster: 0207 2194606



Prompt Travel

Taxi & Private Hire

**4, 8 & 16-seat vehicles
24 hrs 7 days a week**



Incorporating Vale Private Hire

**01824 790485
07974 862027**

Teithiau Prydlon



Tacsi a Hurio Preifat

Nodiadau o Blas Ashpool

Rydyn ni newydd ddod i ddiwedd wythnos brysur ond gwyh gyda fy mab a'i deulu sydd wedi dod draw o America. Mae bron pedair blynedd ers i ni eu gweld nhw ddiwetha, ac mae'r plant wedi newid gymaint. Mae eu gweld nhw wedi tyfu'n bobl ifanc yn eu harddegau yn gwneud i ni sylweddoli cymaint o amser sydd wedi mynd heibio. I ni, mae'n debyg bod bywyd wedi rhyw fynd yn ei flaen fel arfer, gyda holl newidiadau'r tymhorau a digwyddiadau pob dydd (heblaw am firi cyfyngiadau Covid). Ond iddyn nhw mae llawer o newidiadau i'w gweld ym Mhlas Ashpool. Atgyweirio'r sguor, gwelliannau yn y tŷ, newidiadau ac ychwanegiadau i'r ardd ac wrth gwrs, rhagor o gefndryd a chyfnitherod yn y teulu. Mae gennym lawer i ddiolch amdano.

I baratoi ar gyfer eu hymweliad, penderfynais dacluso a chlirio'r gegin. Roedd hyn yn cynnwys rhoi hen lyfrau ryseitiau i siopau elusen ac wrth wneud hyn, ymhlith y tudalennau fe ddes i o hyd i gannoedd o

ryseitiau mewn llawysgrifen, nodiadau, llythyrau, darnau papur, lluniau bach wedi'u harbed ers blynyddoedd. Roedd ambell daflen gwasanaeth angladd perthnasau a ffrindiau – dwi ddim yn hollol siŵr sut ddaeth y rhain i fod mewn llyfrau ryseitiau! Beth bynnag, ar ôl eu didoli yn gategorïau, wedi dyfalu dulliau a oedd wedi'u hysgrifennu mewn llaw-fer fer iawn, ac wedi dyfalu pwy oedd wedi'u rhoi i mi, maen nhw wedi'u ffeilio erbyn hyn ac yn cael eu defnyddio i roi amrywiaeth i'n prydau pob dydd. Mae'n hyfryd meddwl am eu gwreiddiau a'u rhoddwyr wrth baratoi'r cynhwysion.


Er bod y tywydd braf a chynnes annhymhorol yn parhau, rwyf wedi ildio ac wedi cynnau tân fin nos. Rwyf hefyd wedi mwynhau gweld y lleuad lawn hardd, yn gefndir i alwadau'r tylluanod eto. Y bore o'r blaen, ychydig cyn y wawr, fe weles i sgyfarnog. Rwy heb weld un ers blynyddoedd.

Rwy'n gobeithio y gallwn ni i gyd fwynhau rhagor o ddyddiau tawel yr hydref wrth i ni lithro i dywyllwch y gaeaf, gan gofio y bydd y Fam Ddaear yn ddistaw bach yn gwneud yr holl waith angenrheidiol i ddod â'n gerddi yn fyw unwaith eto.

Tan y tro nesa, mwynhewch y garddio dros y gaeaf.

Fiona Bell

Llun y mis



Dewis Phil O'Loughlin y mis yma yw machlud hyfryd dros Foel Famau.

DBP 

**Denbigh
Building
Plastics**

SUPPLIERS & INSTALLERS

*U_PVC windows, doors, rockdoors,
secondary double glazing, sealed units.*

*Conservatories, porches, garage doors,
fascias, gutters, dry verge system,
Firestone rubber roofing and canopies.*

Unit 7

Colomendy Industrial Estate

Denbigh LL16 5TA

01745 818849

Open Mon – Fri 7.30am – 5 pm

Sat 9 am – 12 pm

Ryseitiau'r mis

CACEN BYTH YN METHU

Tun 2 bwys wedi ei leinio
4 owns o fenyn caled
6 owns o siwgr brown meddal
12 owns o ffrwyth cymysg sych
4 owns o geirios
Tun bach o binafal (y cynnwys i gyd)
8 owns o flawd codi
2 wy

Dull

Rhowch bopeth yn y sosban a'i feddalu.
Gadaewch y cymysgedd i oeri.
Wedyn adiwch y blawd a'r wyau a'u
cymysgu'n dda.
Rhowch y cymysgedd yn y tun ac i mewn i'r
popty ar 140 °C am awr a hanner i ddwy awr.
Cadwch y gacen yn y tun i oeri.
Mae'n cadw'n dda.

Roedd Mam yn forwyn mewn tŷ yn Ninbych yn
y tri degau. Dyma rysait a oedd yn ei llyfr pan
oedd hi yno.

PWDIN PARAGON

1 pwys o datws
2 owns o fenyn
2 owns o siwgr
1 lemon
2 wy
Pinsiaid o halen ar gyfer y tatws


Dull

Berwch y tatws nes eu bod nhw'n feddal a'u
rhwbio drwy ogor pan maen nhw'n boeth.
Toddwch y menyn ac ychwanegwch y tatws.
Gratiwch groen y lemon, ychwanegwch y siwgr
a sudd y lemon, a chymysgwch yn dda.
Pobwch mewn dysgl pastai mewn popty â
gwres cymedrol am 30 munud.

Menna Ellis



hgweb designs
rydym ni'n creu... we create....
gwefannau - websites!
www.hgwebdesigns.co.uk
01678 520882
07984 511164
Gwefannau proffesiynol, dwyieithog ar gyfer
busnesau, sefydliadau ac ysgolion lleol.
Affordable, bilingual and professional websites for
local businesses, organisations and schools.
hannah@hgwebdesigns.co.uk



Paragon Pudding
1 lb Potatoes.
2 qts Butter.
2^{1/2} Sugar.
2 or 1 Lemon's.
2 Eggs.
Pinch of Salt.
Put the Potatoes through a sieve
while hot. Melt Butter & add
them. Then grated rind of Lemon.
Sugar, & Lemon juice then well
bake in a Pie dish in a
moderate oven 30 mins.

Tri lle

Essaouira



Mae Essaouira'n borthladd lliwgar ar arfordir Morocco – tref bysgota lle gallen ni'n hawdd iawn dreulio gaeafau hapus ynddi, yn awel fwyn yr Atlantig.

Mae Sue y wraig a minne wedi aros yno dair gwaith yn ddiweddar. Mae'n llawer tawelach na thre swllyd Marrakesh, sydd rhyw ddwy awr i ffwrdd, ac yn llawer mwy hamddenol a deniadol.

Mae gan yr hen dref waliau cadarn i gadw'r stormydd gwaethaf allan, ac, o fewn yr hen gaer, mae'r strydoedd culion yn llawn o stondinau, siopau bach, caffis a bwytai o bob math.

Mae'r adeiladau a'r waliau dramatig wedi ymddangos mewn sawl ffilm, e.e. *Othello* (1951) gan Orson Welles – mae bar ar lan y môr yng Ngwesty des lles wedi ei enwi ar ei ôl! Cymeriad eiconig arall fuodd yn aros mewn gwesty yn y dre oedd Jimmy Hendrix – roedd 'na dynfa fawr yma i holl hipis y byd yn y 60au, a hyd yn oed heddiw, dydio'n ddim i chi gael cynnig 'chydig o 'grass' yn slei bach.

Mae'r traeth enfawr a'r tonnau bywiog yn denu pobol yr haul a'r hwylyrddwyr, a sawl gêm bêl-droed go ddifrifol. Mae'r porthladd yn fwrlwm o brysurdeb: y pysgotwyr yn halio'r cychod glas gloyw i'w clymu ac yn dechrau gwerthu brîm, sardîns, crancod a chorgimychiaid. Daw'r llongau mwy â dalfa enfawr mewn paciau rhew, yn barod i'w hanfon i'r tir mawr.

Gallwch weld eich pysgodyn yn cael ei ffrio ar stondinau bychain, a chewch ei fwyta'n ffres ar lan y môr – blasus!

Weithiau, am newid, byddwn ni'n mynd ar y bws lleol i Ounagha a chael cinio bach yn Domain du Val D'Argan – gwinllan a gerfiwyd allan o'r pridd crasboeth gan y Ffrancwr Charles Mélia. Wrth ymyl y pwll nofio, dan gysgod y coed, mae digonedd o fwydydd i'w blasu – rhai efo olew *argan*, a dewis da o winoedd gwyn, coch a rosé yn syth o winllannoedd y stad 60 hectar yma. Gall yr ymwelwyr ddiogi wrth y pwll nofio, ymweld â'r adran botelu neu grwydro drwy'r winllan. Mae honno wedi ei hamgylchynu â rhosod – blodyn da sy'n dangos gwahanol glefydau cyn iddyn nhw gydio yn y gwinwydd. Daw amser i droi am adre – weithiau mewn *grand taxi*, sef hen Fercedes tolciog, du. Rhaid gwneud yn siŵr ein bod yn eistedd yn y cefn ac nid wedi'n gwasgu rhy dynn wrth ymyl y gyrrwr. Ta waeth, mae'r siwrne, fel Essaouira yn llawn antur.

Plas yn Rhiw

Dyma un arall o'n hoff lefydd, sydd hefyd wrth ymyl y môr. Mae'n blasty o'r 17eg ganrif ym Mhen Llŷn. Dyma gartre fy hen hen daid, Thomas Roberts, ar un adeg, ond mae bellach yng ngofal yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Does neb yn siŵr pam y symudodd Thomas Roberts ei deulu o stad fechan ar safle dymunol yn Hendre, Abererch i ddod i fyw i le go anial ym Mhlas yn Rhiw yn yr 1870au. Falle mai'r golygfeydd syfrdanol o Borth Neigwl a Bae Ceredigion a ddenodd o – yn ôl yr Ymddiriedolaeth, 'un o'r golygfeydd mwyaf godidog ym Mhrydain'. Hwyrach bod edrych allan drwy'r ffenestri yn lleddfu rhywfaint ar y pyliau o dymer drwg y byddai'n eu cael bob hyn a hyn! Yn ôl y sôn, doedd ei ferched ddim yn rhy hapus ynglŷn â hyn – dihangodd un i briodi'n sydyn iawn, a phriododd Constance Roberts (fy hen nain) John Jenkins, Saltney Hall, Birmingham. Buon nhw'n byw ym Maesgamedd, Gwyddelwern cyn marwolaeth

sydyn Constance yn 1885.

Yn dilyn marwolaeth Thomas Roberts yn 1890, gadawyd Plas yn Rhiw i ddadfeilio'n araf, nes i'r pensaer Clough Williams-Ellis (Portmeirion) ei weld yn lle hynod o hudolus, ond bod 'tirlun gwag a diaddurn o'i gwmpas'. Llwyddodd i berswadio'r chwirydd Eileen, Lorna ac Honora Keating i'w brynu a'i adnewyddu, ac, ymhen amser rhoddwyd y lle i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.



Mae'r plasty bellach yn denu pobl sydd am osgoi'r llefydd twristaidd ac ymlacio'n llwyr ar hyd y llwybrau llwyni bocs a thrwy'r gerddi hardd o lwyni, coed a borderi blodau. Mae 'na swyn arbennig yn yr hen dŷ cartrefol, a'r feranda o'i flaen – lle braf am banded o de a chacen!

Mae Plas yn Rhiw yn rhoi cyfle bob tro i mi gael sbwyllo fy hun mewn amgylchedd hyfryd a chael pwl o hiraeth wrth feddwl am bennod yn hanes fy nheulu.

Gwesty Mendy, Saint-Jean-Le-Vieux

Mae Gwesty Mendy yn ardal Pyrénées-Atlantiques, de-orllewin Ffrainc, yn un o'r llefydd mae Sue a minne wedi addo mynd 'nôl iddo ryw ddiwrnod, gobeithio.

Gwesty bach teuluol, taclus, di-lol ydy hwn, efo bar, bwyty a gardd hyfryd i ymlacio ynddi wedi'r holl gerdded yng ngwlad y Basg. Cyfle i fwynhau sgwrs a glasied neu ddau wrth ddotio ar y mynyddoedd o amgylch.

Mae'n westy hefyd i rai pererinion sydd ar eu ffordd i Saint-Jean-Pied-de-Port – tref



farchnad gerllaw, lle daw 25,000 o gerddwyr bob blwyddyn i ddechrau cerdded y *Camino de Santiago*. Dim ond y rhai mwyaf egniol o'r pererinion sy'n mentro o'r dref hon – mae 'na 790km o daith ysbrydol a heriol o'u blaenau i *Santiago de Compostela*. A does dim angen cloc larwm i'ch codi'n gynnar yng Ngwesty Mendy – mae clychau *Église Saint-Pierre d'Usakao* yn canu *de bonne heure* (yn gynnar!!).

Peter Jenkins



Blue Hand Mowers

Repair and servicing of all garden machinery:

Lawn mowers and lawn tractors

Chain saws

Hedge cutters

Strimmers

Disc cutters

Quad bikes

Leaf blowers


Hand tools

Collection and delivery service available

Situated on 'Blue Hand Corner' or find us on Google

www.bluehandmowers.co.uk

enquiries@bluehandmowers.co.uk

 0775 20 35 462

Mwynhaodd disgyblion iau Ysgol Bryn Clwyd ac Ysgol Gellifor fore yn dysgu iaith arwyddion a chanu ynddi hefyd.



YSGOL BRYN CLWYD

Cyflwynwyd y gweithdy gan

Gymdeithas Iaith

Arwyddo Prydain a chafodd yr holl ddisgyblion dystysgrif.

Fel rhan o'u pwnc dirgelwch, maen nhw wedi bod yn gweithio gyda'u ffrindiau ar-lein i ysgrifennu storïau Scooby Doo gan ddefnyddio Google Slides. Maen nhw hefyd wedi dysgu am archwilio safleoedd troseddau, mathau gwa-hanol o hel tystiolaeth, ac wedi rhoi cynnig ar gromatograffeg.

I orffen y pwnc dirgelwch, cafodd y plant iau wers gyda'r consuriwr, Proffesor Llusern. Gwnaeth argraff arnyn nhw gyda'i driciau hud a dysgodd y plant sut i wneud hud gyda mathemateg!

Mae'r babanod wedi bod yn dysgu am gymysgu lliwiau i wneud eu creonau nhw eu hunain o'u stori, 'The day the crayons quit'. Maen nhw hefyd wedi bod yn brysur yn pwyso a mesur, a gweithio gyda rhifau a chyfrif.

Gan ei bod yn nesáu at Galan Gaeaf, mae'r plant oed meithrin wedi bod yn cael hwyl yn y dŵr gyda phwmpenni.

Ymunodd rhieni a theuluoedd â'r disgyblion ar gyfer Gwasanaeth Diolchgarwch.

Cyfrannwyd nifer fawr o eitemau bwyd a fydd yn cael eu rhoi i un o'r banciau bwyd lleol.

Mae cyngor yr ysgol wedi cyfarfod â'r Pennaeth. Ymhlith eu syniadau am welliannau i'r ysgol mae prynu rhagor o adnoddau i'r maes chwarae a chasglu sbwriel o gwmpas yr ysgol a'r pentre.

Cododd y sioe dalentau lwyddiannus £147.50 ar gyfer llwyfan coffa Mrs Morris. Roedd y perfformwyr i gyd yn ardderchog ac mae'r athrawon yn falch iawn ohonyn nhw!

I orffen yr hanner tymor, cafodd y plant amser ardderchog yn y parti Calan Gaeaf.



Yn Llan Llanast mis Hydref fe fuon ni'n dathlu Iesu fel goleuni'r byd. Felly fe fuon ni'n gwneud goleudai, llusernau, ffenestri gwydr lliw, cacennau a oedd yn edrych fel canhwyllau, a gwnaeth y plant freichledau o *glowsticks*. Hefyd, fe gawson ni ein hatgoffa bod Sul y Beibl yn nesáu, ac felly fe wnaethon ni lyfrau gyda straeon o'r Beibl, a soniodd y Parch. Val am seintiau.

Wedyn rhoddodd y Parch. Val falw'n yr un i'r plant a oedd â'r geiriau 'Iesu yw goleuni'r byd' arno, a chafodd pawb hwyl yn chwarae â'r balw'ns i gyfeiliant y gân 'Gair disglair Duw'. Tybed pwy gafodd fwyaf o hwyl – yr oedolion neu'r plant?!

Bydd ein sesiwn nesaf bnawn dydd Sul, 14 Tachwedd am 3.30 yn Neuadd y Pentre ac mae croeso cynnes i bawb. Ond cofiwch, blant, dewch ag oedolyn gyda chi i rannu'r hwyl!

Oriau agor Swyddfa'r Post

Dyddiau Llun Mawrth, Iau, Gwener

9am–12pm, 2pm–5pm

Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30

01824 790310

Gair gan y Rheithor

Fel na bo i ni anghofio

Tachwedd ydi'r mis pan mae'r Eglwys yn draddodiadol yn cofio'r rhai sy wedi ein gadael. Mae'n cychwyn gyda'r Holl Saint, pan fyddwn ni'n cofio Seintiau'r gorffennol, ac yna'r Holl Eneidiau, pan fyddwn ni'n cofio'n hanwyliaid sydd wedi marw. Unwaith eto eleni, byddwn yn cynnal gwasanaeth Cofio a Diolchgarwch – gwasanaeth tawel i fyfyrion a chofio'n hanwyliaid, cynnau kannwyll i gofio'r rheiny a gollwyd. Bydd y gwasanaeth hwn yn cael ei gynnal yn Eglwys Sant Tyrnog, bnawn dydd Sul, 7 Tachwedd am 4 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Bydd dydd Sul 14 Tachwedd yn Sul y Cofio, pan fyddwn ni'n coffáu ac yn anrhydeddu pawb a fu farw yn gwasanaethu ein gwlad, ac yn diolch am ddewrder y rhai fu, a'r rhai sy'n ein gwasanaethu ni heddiw. Y llynedd, cynhaliwyd Sul y Cofio yn ystod y cyfnod clo fis Hydref a Thachwedd, pan gyfyngwyd ar y nifer i 30 o bobl wrth y Gofgolofn. Serch hynny, cafwyd gwasanaeth urddasol a pharchus. Eleni, **byddwn yn cychwyn wrth y Gofgolofn gyda 2 funud o ddistawrwydd am 11am, a chynnal y Coffâd yn yr awyr agored. Yna, cael y gwasanaeth yn yr Eglwys. Sylwch fod y drefn hon yn wahanol i'r arferol.**

Mae'r milwyr sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog yn gwneud eu gorau i ddod â heddwch i'n byd ac nid rhyfel. Mae heddwch yn rhywbeth i'w drysori, yn rhywbeth mae pawb ohonom ni'n dyheu amdano, yn enwedig pan mae bywyd yn galed. Yn ei lythyr at y Rhufeiniaid, dywedodd yr Apostol Paul 'Gwnewch bopeth allwch chi i fyw mewn heddwch gyda phawb'. Er mwyn cael heddwch mae angen doethineb, trugaredd a pharodrwydd i wrando a dal i wrando nes dod o hyd i ddatrysiad.

'Plannwch hadau heddwch lle bynnag bo eich taith a bendithiwch eraill fel y cawsoch chi eich bendithio. Peidiwch yngan geiriau fydd yn clwyfo. Peidiwch â chelu dim y gellir ei rannu a gweddiwch yn barhaus am heddwch'

I gau ar nodyn personol: 'falle eich bod yn gwybod fy mod yn ymddeol o offeiriadaeth gyflogedig ddiwedd Tachwedd. Bydd Trefor a minnau'n drist i adael Llandyrnog – mae'n bentre' hyfryd a chroesawgar. Diolch i chi am eich cyfeillgarwch, cefnogaeth ac anogaeth dros y 7 mlynedd ddiwetha'.

Gyda phob bendith

Val Rowlands

Oedfaon yr Eglwys

St Tyrnog

7 Tachwedd: 11.15 Cymun Bendigaid

16.00: Oedfa i gofio a diolch am ein hanwyliaid

14 Tachwedd: 10.55 Oedfa Sul y cofio.

21 Tachwedd: 11.15 Boreol weddi

28 Tachwedd: 11.15 Cymun Bendigaid

Llan Llanast

14 Tachwedd: 3.30–5.30 y pawns. Crefftau, addoli, bwyd, i'r teulu cyfan. Croeso cynnes i bawb. Rhaid i blant ddod ag oedolyn gyda nhw.

GLYN EVANS AUTOCLINIC

Canolfan Trwsio Ceir

Ystâd Ddiwydiannol Colomendy

Dinbych LL16 5TA



GWAITH YSWIRIANT

TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU

CEIR I'W BENTHYG

GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I

LAWR

01745 815141

07808970364

Taith mewn hofrennydd

Rydw i'n cyfrif fy hun yn ffodus iawn 'mod i wedi cael nifer o brofiade gwahanol iawn yn dreifio ar ffyrdd, cilffyrdd a thraciau dros y blynyddoedd. Penderfynodd Anwen ei bod hi'n amser i ni gael profiad newydd y byddai'r ddau ohonon ni'n gallu ei rannu a'i fwynhau. Be' fase'n gwneud i'n calonne ni'n dau guro'n llawn cyffro unwaith eto fel y dyddie cynt – dros 30 mlynedd yn ôl pan wnaethon ni gyfarfod am y tro cynta'? Felly wrth feddwl am anrheg Dolig 2019 i mi, dyma Anwen yn chwilio am brofiad y bydden ni'n dau'n gyfforddus ag o – un i greu atgofion ohono fel petai, rhywbeth y medren ni fwynhau efo'n gilydd heb godi gormod o ddychryn arnon ni! Ryden ni'n dau'n tynnu 'mlaen erbyn hyn!

Yn anffodus, doedd dim modd bwcio'r profiad o gerdded ar adenydd awyren, felly dyma hi'n dewis rhywbeth mwy hamddenol – reid mewn hofrennydd o faes Awyr Caernarfon dros Benrhyn Llŷn. Anrheg 'Dolig delfrydol – cael gwared ar y gaeaf yn gynta' a chael rhywbeth i edrych 'mlaen ato, gyda'n gilydd!

Yn anffodus, daeth y cofid ac a gohirio'r digwyddiad, ond, dim problem, medde'r cwmni, rhowch ganiad ffôn pan fydd y cyfyngiadau wedi codi a byddwn ni'n barod i fynd â chi! Chwarae teg iddyn nhw, dyma nhw'n dal at eu gair, ac ar 28 Awst eleni (21 mis ar ôl prynu'r hediad!), roedd y car yn anelu am Ddinas Dinlle a'r maes awyr.

Dw i'n casáu tagfeydd traffig – mae'n well gen i fynd rownd ffordd hirach na theithio ar y ffordd fwya' boblogaidd ac i mewn i dagfa traffig! Y tro hwn, oherwydd gwahanol resymau – penwythnos Gŵyl y Banc, adeiladu ffordd osgoi Caernarfon, i enwi dim ond dau – penderfynon ni, (neu'n hytrach, fi) deithio ar hyd y ffordd dwristaidd. Teithio dros Fynydd Hiraethog i Fetws y Coed, Capel Curig, Beddgelert a Dyffryn Nantlle, Penygroes tuag at gylchfan – cofio hi'n iawn ond wedi anghofio'r enw (maen nhw i gyd yn edrych yr un fath, ond dydyn nhw?). Troi i'r chwith, ac roeddwn i'n gwybod y byddwn yn gweld

arwydd brown am y maes awyr. Am unwaith, doedd y dewis o ffordd ddim wedi siomi Anwen – roedd y golygfeydd ar y daith mewn heulwen braf yn syfrdanol.

Os ydech chi'n ffansio mynd am dro, byddwn i'n argymhell y ffordd hon. Do, mae'n siŵr ei bod hi wedi cymryd hanner awr yn fwy o amser i ni deithio, ond roedd o'n werth pob eiliad – llawer iawn gwell na bod mewn tagfa draffig am hanner awr beth bynnag!

Ar ôl cyrraedd Dinas Dinlle, mi sylwes i ar hofrennydd mawr melyn, ond sylweddoli'n fuan nad ein hofrennydd ni oedd hwnnw. Dyma hofrennydd yr Ambiwylans Awyr – roedd yr un goch wedi mynd am wasanaeth cynnal a chadw. Dyma un o'u canolfannau, gyda chaffi ardderchog a seti tu allan yn yr awyr agored.

Cyn hir, cyflwynodd y peilot Dan ei hun i ni – wedi'i wisgo'n drwsiadus ac yn siarad fel gŵr bonheddig. Roedd Anwen a fi'n teimlo'n reit gyfforddus gyda Dan wrth y llyw.

Raven II R44 â phedair sedd oedd yr hofrennydd, un o'r rhai mwya' poblogaidd a defnyddiol y dyddie hyn.

Dringodd Anwen yn afrosgo i'r sedd gefn (ei geiriau hi, nid fy rhai i!), ac eisteddes i wrth ymyl Dan. oedd fel eistedd mewn swigen wydr a golygfeydd panoramig 360° o'n cwmpas, ac roeddwn i'n falch mai Dan oedd yng ngofal cloi'r drysau'n ganolog. Dw i'n dueddol o ffidlan efo unrhyw beth sy'n symud i fyny ac i lawr, jyst i gael gweld be sy'n digwydd! Rydw i wedi cael sawl rhybudd am hyn – wel, doedd dim siawns o hyn yma!

Roedd Dan yn beilot ardderchog. Ar ôl i'r rotor gyflymu, dyma ni'n codi'n raddol, ac ar ôl tro llyfn yn yr awyr, dyma olygfa fendigedig o draeth Aberdesach yn ymddangos. Roedden ni'n dilyn yr arfordir am dipyn, a'r brif nodwedd oedd eglwys hardd St Beuno, Clynog Fawr. Fe gewch chi olrhain hanes pensaerniaeth orchestol yr adeilad, sy'n edrych yn fwy trawiadol fyth o'r awyr. Dw i'n gobeithio mynd nôl yno rhyw ddiwrnod - mae ar fy rhestr o bethau i'w gwneud!

Taith mewn hofrennydd: parhad



Eglwys St Beuno, Clynnog Fawr

Ar ôl hofran ar uchder cymeradwy a mwynhau'r golygfeydd, mi wnaethom ni anelu at bentref Trefor, a theimlo bod yr hofrennydd yn codi'r mymryn lleiaf i ni fedru hedfan dros yr Eifl, gan adael digon o amser i astudio olion Chwareli Gwenithfaen Trefor.

Mae Chwarel Trefor, sy wedi'i thyrchu'n ddwfn i'r Eifl, yn ymestyn am bellter, ac wedi ei henwi ar ôl ei fforman cynta', Trefor Jones. Agorwyd y chwarel yn 1850 ac fe gafodd ei chau yn 1963. Gwelir olion rheilffordd ar y safle oedd yn cysylltu gwahanol rannau o'r chwarel, ac inclein serth i lawr at Bier Trefor, lle'r oedd slabiau o wenithfaen yn cael eu cludo, a'u dosbarthu – i Lerpwl yn bennaf. Roedd rhai o'r meini cwrlon cael eu gwneud yma – mae'r gwenithfaen yn galed iawn.

Yna anelu at ganol y penrhyn a hedfan dros bentrefi fel Llwyndyrys a'r Ffôr, lle'r oedd arafanau a phebyll i'w gweld wedi eu gosod ym mhob twll a chornel. Mae'r diwydiant 'aros gartref' diweddar yn beth da i Ben Llŷn, dybiwn i!



Dywedodd Dan wrthon ni'n bod ni'n teithio ar gyflymder o 100mya, ond doedd hi ddim yn teimlo felly – teimlad hyfryd iawn. Roeddem ni wedi'n cysylltu efo'n *intercoms* ac yn sgwrsio'n hamddenol wrth hedfan dros harbwr Pwllheli a'i angorfeydd i 400 o gychod. Mae angorfa yno'n costio £400 y metr, (lleiafswm o 7 metr yr un), ond mae'n debyg ei fod yn lle da iawn i gychwyn hwylio ohono.

Taith fer dros Abersoch i gael gweld Y Warren (isod), ac roedd y chalets i'w gweld yn agos iawn at ei gilydd, er bod rhai ohonyn nhw'n werth £325k! Yn ôl pob golwg, mae'n lle delfrydol, a phopeth sy ei angen am wyliau teulu ar y safle.



Roedd hi'n bryd dychwelyd tuag at Ddinas Dinlle, ond gan ddilyn llwybr 'chydig yn wahanol.

Wedi glaniad perffaith, tynnu llun efo'r hofrennydd, a diolch i Dan, aethon ni am ginio bach i Lynllifon i hel atgofion am y profiad. Ac wrth gwrs, i gynllunio am yr un nesa! Byddwn i'n rhoi 5 seren am y profiad mewn adolygiad *Trip Advisor*, ac annog unrhyw un i fynd ar daith debyg y flwyddyn nesa.

Bryn Davies



Materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Hydref y Cyngor Cymuned

- ◆ Mae Best Construction yn ddigon parod i drafod enwi'r datblygiad tai gyferbyn â Glan yr Afon â'r Cyngor Cymuned.
- ◆ Mae Cyngor Sir Ddinbych yn barod i roi gât newydd ar Lwybr Tyrnog rhwng yr Hen Reithordy a Groes Efa.
- ◆ Roedd yr Heddwes Cymunedol David Jones wedi ymweld â'r pentre yn sgil cwyn am barcio anystyriol. Fodd bynnag, nid oedd yn credu bod angen gweithredu ar y sefyllfa a welodd, ond bydd yn cadw golwg arni.
- ◆ Mae'r Cyngor cymuned wedi gofyn ddwy waith i uned diogelwch y ffyrdd Cyngor Sir Ddinbych am arwyddion ar y B5429 yn rhybuddio modurwyr efallai y bydd ceffylau ar y ffordd o gwmpas ardaloedd Penpalmant a Ty'n Caeau ac mae'n disgwyl ateb.
- ◆ Cafwyd adroddiadau am bobl noeth yn cerdded yn ardal Llangwyfan, gan achosi gofid i drigolion lleol a ddaeth ar eu traws ar hap. Cadarnhaodd Heddlu Gogledd Cymru nad oes dim y gallan nhw ei wneud oni bai bod ymdrech bwriadol i achosi gofid i eraill. Y cyngor yw i'r trigolion ffonio 101 ar unwaith petai'r un peth yn digwydd eto.
- ◆ Mae dau swyddog o'r Cyngor Sir wedi bod o gwmpas yr ardal i bennu lleiniau glaswellt y gellid eu defnyddio i blannu blodau gwylt y tymor nesa. Bydd rhagor o wybodaeth i ddilyn.
- ◆ Mae cyfarfod wedi bod o grŵp cysylltiadau MHC. Ms Seona Wier yw'r Cyfarwyddwr Rheoli nawr a hi fydd y cyswllt rheolaidd rhwng trigolion ac MHC. Mae MHC yn ymwybodol bod angen rhagor o arwyddion er mwyn danfon nwyddau i'r tai cywir ar y safle ac mae'r gwaith yma ar y gweill. Yn sgil sawl cwyn am yrru anystyriol adeg newid shifftiau, pan mae'r staff yn cael sesiwn gynefino, maen nhw'n cael eu hatgoffa i fod yn ystyriol wrth eraill pan maen nhw'n cyrraedd ac yn ymadael. Mae'r Cyngorydd Parry wedi cyfarfod ag Uned Diogelwch y Ffyrdd i drafod ffyrdd o arafu traffig o gwmpas prif fynedfa'r safle.
- ◆ Cafwyd trafodaeth i benderfynu a ddylid gwneud cais am grant i gynnal cyfarfod cymunedol i weld beth mae'r trigolion yn meddwl sy'n ddiffygiol mewn cyfleusterau, yn dilyn Covid, neu sut y gellid eu gwella i ymdopi â beth bynnag ddaw yn y dyfodol.
- ◆ Cafwyd trafodaeth ynghylch a fyddai'n bosibl gosod adnoddau fideo-gynadledda yn yr Ystafelloedd Coco i hwyluso cyfarfod-ydd hybrid a dibenion eraill.
- ◆ Bwriedir gofyn i'r Cyngor Sir a ydy hi'n bosib gosod mesurau arafu traffig bob ochr i'r brif bont dros afon Clwyd rhwng Llandyrnog a Dinbych. Bydd hyn yn gais ar y cyd rhwng Llandyrnog a Chyngor Tref Dinbych.
- ◆ Mynegwyd pryderon am ddŵr ar wyneb y ffordd yn rhedeg o'r gwaith trin carthion. Bydd y Clerc yn cysylltu â'r asiantaethau priodol fel mesur rhag blaen cyn iddi ddechrau rhewi.

Rhifau Ffôn Defnyddiol

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych

— 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan

i oriau swyddfa — 0300 123 3068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)

Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

Cyngor Sir Ddinbych

Merfyn Parry

Manylion cyswllt:

Ffôn : 07836 208446

E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk

Neu gadewch neges ar Facebook

